CYHOEDDIAD, DOGFENNU

# Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru: asesiad effaith integredig

Asesiad effaith integredig Rydym yn bwriadu diwygio'r Rheoliadau presennol ar gyfer penodi Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru.

**Cyhoeddwyd gyntaf:** 8 Rhagfyr 2023

**Diweddarwyd ddiwethaf:** 8 Rhagfyr 2023

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/comisiynydd-pobl-hyn-cymru-asesiad-effaith-integredig-html-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Cynnwys


## Nodwedd neu grŵp gwarchodedig

## Troednodyn



**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/comisiynydd-pobl-hyn-cymru-asesiad-effaith-integredig-html-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Nodwedd neu grŵp gwarchodedig

## Oedran (meddyliwch am wahanol grwpiau oedran)

### Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig

Cadarnhaol

### Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)

Bydd ymestyn cyfnod swydd Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru i saith mlynedd yn galluogi comisiynwyr y dyfodol i gyrraedd ystod ehangach o bobl hŷn a gwella eu gallu i ddylanwadu'n gadarnhaol ar y llywodraeth a gwasanaethau statudol. Gallai'r sefydlogrwydd hwn ddod â mwy o fuddion i bobl hŷn a'u cymunedau na'r ansicrwydd o gyfnod o bedair blynedd wedi'i ddilyn gan ddwy flynedd arall a ganiateir dim ond yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus a chytundeb y Prif Weinidog.

### Sut y byddwch yn lliniaru'r effeithiau

Bydd perfformiad unrhyw gomisiynwyr yn y dyfodol yn cael ei fonitro gan Weinidogion Cymru ac uwch-swyddogion er mwyn mynd i'r afael ag unrhyw broblemau cyn gynted â phosibl.

## Anabledd

Ystyriwch y model cymdeithasol o anabledd [troednodyn1] a sut y gallai eich cynnig achosi'n anfwriadol, neu sut y gellid ei ddefnyddio'n rhagweithiol i ddileu,

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/comisiynydd-pobl-hyn-cymru-asesiad-effaith-integredig-html-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

y rhwystrau sy’n anablu pobl sydd â gwahanol fathau o namau.

## Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig

Cadarnhaol

## Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)

‘Diffinnir rôl a phwerau statudol y Comisiynydd gan Ddeddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006 a'r Rheoliadau ategol.

Mae'r Ddeddf yn amlinellu'r camau y mae’r Comisiynydd yn gallu eu cymryd i sicrhau bod buddiannau pobl hŷn yn cael eu diogelu a'u hyrwyddo pan fydd cyrff cyhoeddus yn cyflawni eu swyddogaethau, a'r cymorth y gall y Comisiynydd ei ddarparu'n uniongyrchol i bobl hŷn dan rai amgylchaidau penodol.’

**Swyddogaeth a Phwerau Cyfreithiol – Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru**

Gan fod cyfran uwch o bobl hŷn yn byw ag anabledd neu gyflwr sy’n cyfyngu ar fywyd, rhagwelir y gallai darparu cyfnod hwy yn y swydd ar gyfer comisiynwyr y dyfodol helpu i chwalu rhwystrau sy’n anablu pobl â gwahanol fathau o namau.

## Sut y byddwch yn lliniaru'r effeithiau

Bydd perfformiad unrhyw gomisiynwyr yn y dyfodol yn cael ei fonitro gan Weinidogion Cymru ac uwch-swyddogion er mwyn mynd i’r afael ag unrhyw broblemau cyn gynted â phosibl.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/comisiynydd-pobl-hyn-cymru-asesiad-effaith-integredig-html-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Ailbennu rhywedd (y broses o drawsnewid a phobl drawsryweddol)

### Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)

Un o swyddogaethau statudol Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru yw ‘hyrwyddo hawliau a buddiannau pobl hŷn yng Nghymru’.

**Swyddogaeth a Phwerau Cyfreithiol – Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru**

Felly byddai disgwyl y bydd comisiynwyr y dyfodol yn ymgysylltu â phobl drawsryweddol hŷn ac yn hyrwyddo eu buddiannau. Dylai'r gallu i wneud hyn dros y cyfnod estynedig o saith mlynedd heb ymyrraeth nac ansicrwydd ddod â manteision i'r grŵp hwn.

### Sut y byddwch yn lliniaru'r effeithiau

Bydd perfformiad unrhyw gomisiynwyr yn y dyfodol yn cael ei fonitro gan Weinidogion Cymru ac uwch-swyddogion er mwyn mynd i’r afael ag unrhyw broblemau cyn gynted â phosibl.

## Beichiogrwydd a mamolaeth

### Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig

Ni nodwyd unrhyw effeithiau cadarnhaol neu negyddol.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/comisiynydd-pobl-hyn-cymru-asesiad-effaith-integredig-html-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Hil (gan gynnwys gwahanol leiafrifoedd ethnig, Sipsiwn a Theithwyr, a mudwyr, ceiswyr lloches a ffoaduriaid)

### Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig

Cadarnhaol

### Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)

Mae swyddogaethau statudol Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn cynnwys y canlynol:

- hybu ymwybyddiaeth o hawliau a buddiannau pobl hŷn yng Nghymru
- herio gwahaniaethu yn erbyn pobl hŷn yng Nghymru
- annog arferion gorau yn y ffordd y mae pobl hŷn yn cael eu trin yng Nghymru
- adolygu’r gyfraith sy’n effeithio ar fuddiannau pobl hŷn yng Nghymru’

**Swyddogaeth a Phwerau Cyfreithiol – Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru**

Bydd cyfnod estynedig yn y swydd yn cynyddu gallu comisiynwyr y dyfodol i wrando ar brofiadau gwahanol leiafrifoedd a datblygu atebion arloesol a hirdymor.

### Sut y byddwch yn lliniaru'r effeithiau

Bydd perfformiad unrhyw gomisiynwyr yn y dyfodol yn cael ei fonitro gan Weinidogion Cymru ac uwch-swyddogion er mwyn mynd i’r afael ag unrhyw broblemau cyn gynted â phosibl.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/comisiynydd-pobl-hyn-cymru-asesiad-effaith-integredig-html-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Crefydd, cred a diffyg cred

### Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig

Ni nodwyd unrhyw effeithiau cadarnhaol neu negyddol.

### Rhyw / Rhywedd

### Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig

Cadarnhaol

### Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)

Un o swyddogaethau statudol Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru yw ‘hyrwyddo hawliau a buddiannau pobl hŷn yng Nghymru’.

**Swyddogaeth a Phwerau Cyfreithiol – Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru**

Felly, disgwylir y bydd comisiynwyr y dyfodol yn ymgysylltu â phobl sydd â rhyw/ rhywedd gwahanol ac yn hyrwyddo eu buddiannau. Dylai'r gallu i wneud hyn dros y cyfnod estynedig o saith mlynedd heb ymyrraeth nac ansicrwydd ddod â mwy o fanteision i'r grŵp hwn.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/comisiynydd-pobl-hyn-cymru-asesiad-effaith-integredig-html-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Cyfeiriadedd rhywiol (lesbiaidd, hoyw a deurywiol)

### Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig

Cadarnhaol

### Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)

Un o swyddogaethau statudol Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru yw ‘hyrwyddo hawliau a buddiannau pobl hŷn yng Nghymru’.

**Swyddogaeth a Phwerau Cyfreithiol – Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru**

Felly byddai disgwyl i gomisiynwyr y dyfodol ymgysylltu â phobl lesbiaidd, hoyw a deurywiol hŷn ac yn hyrwyddo eu buddiannau. Dylai'r gallu i wneud hyn dros y cyfnod estynedig o saith mlynedd heb ymyrraeth nac ansicrwydd ddod â manteision i'r grŵp hwn.

## Priodas a phartneriaeth sifil

### Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig

Ni nodwyd unrhyw effeithiau cadarnhaol neu negyddol.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/comisiynydd-pobl-hyn-cymru-asesiad-effaith-integredig-html-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Plant a phobl ifanc hyd at 18 oed

### Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig

Ni nodwyd unrhyw effeithiau cadarnhaol neu negyddol.

## Aelwydydd incwm isel

### Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig

Cadarnhaol

### Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)

Gallai effaith gadarnhaol ddigwydd ar aelwydydd incwm isel hŷn os bydd comisiynwyr y dyfodol yn dewis parhau ag ymgyrch y Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru presennol i gynyddu'r nifer sy'n hawlio credyd pensiwn yng Nghymru. Bydd cynnydd yn y defnydd o gredyd pensiwn hefyd yn rhoi mwy o arian i bobl hŷn ei wario yn eu cymunedau lleol, a thrwy hynny fod o fudd i'r economi leol. Byddai cyfnod hwy o saith mlynedd heb unrhyw ymyrraeth, megis yr angen i wneud cais am estyniad o ddwy flynedd, yn creu parhad ac yn cryfhau unrhyw ymgyrchoedd sy'n ymwneud â llesiant economaidd pobl hŷn.

### Sut y byddwch yn lliniaru'r effeithiau

Bydd perfformiad unrhyw gomisiynwyr yn y dyfodol yn cael ei fonitro gan Weinidogion Cymru ac uwch-swyddogion er mwyn mynd i'r afael ag unrhyw

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/comisiynydd-pobl-hyn-cymru-asesiad-effaith-integredig-html-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

broblemau cyn gynted â phosibl.

# Hawliau dynol

## Hawliau dynol a chonfensiynau'r Cenhedloedd Unedig

A fydd y polisi hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar hawliau dynol pobl yn eich barn chi? (Darllenwch bwynt 1.4 yng Nghanllawiau'r Asesiad Effaith Integredig i gael rhagor o wybodaeth am hawliau dynol a chonfensiynau'r Cenhedloedd Unedig).

## Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig

Cadarnhaol

## Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)

Mae swyddogaethau statudol Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn cynnwys y canlynol:

- hybu ymwybyddiaeth o hawliau a buddiannau pobl hŷn yng Nghymru
- herio gwahaniaethu yn erbyn pobl hŷn yng Nghymru
- anog arferion gorau yn y ffordd y mae pobl hŷn yn cael eu trin yng Nghymru
- adolygu'r gyfraith sy'n effeithio ar fuddiannau pobl hŷn yng Nghymru'

**Swyddogaeth a Phwerau Cyfreithiol – Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru**

Bydd cyfnod estynedig yn y swydd yn cynyddu gallu comisiynwyr y dyfodol i weithio mewn partneriaeth â phobl hŷn a'r gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda nhw i godi ymwybyddiaeth o hawliau dynol a sefydlu dull gweithredu

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/comisiynydd-pobl-hyn-cymru-asesiad-effaith-integredig-html-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

seiliedig ar hawliau ar draws y gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru.

## Troednodyn

[1] Mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r model cymdeithasol o anabledd. Rydym yn deall nad yw pobl anabl yn anabl oherwydd eu namau ond oherwydd y rhwystrau y maent yn dod ar eu traws mewn cymdeithas. Sicrhau bod eich cynnig yn cael gwared ar rwystrau, yn hytrach na'u creu, yw'r ffordd orau o wella cydraddoldeb i bobl anabl. Am ragor o wybodaeth, ewch i'r fewnrwyd a chwiliwch am 'y model cymdeithasol'.

**Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch.**
Drllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/comisiynydd-pobl-hyn-cymru-asesiad-effaith-integredig-html-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.